**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU**

**SUBJECT:** **PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU - DYDD IAU, 15 EBRILL 2021 DYDD IAU, 15 EBRILL 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. L. Davies
M. Day
J. Hill
C. Meredith
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Thomas
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Steve Smith (Swyddog) |
| Eirlys Hallett (Swyddog) |
| Mark Hopkins (Swyddog) |
| Steph Hopkins (Swyddog) |
| Gemma Wasley (Swyddog) |
| Justin Waite (Swyddog) |
| Lynda Healy (Swyddog) |
| Paul Samuel (Swyddog) |
| Louise Bishop (Swyddog) |
| Sean Scannell (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Steve Berry (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Swyddog) |
| Ceri Edwards Brown (Ysgrifennydd) |
| Pob Cynghorydd (Hysbysu) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Cynghorydd G. Thomas<br>Cynghorydd D. Wilkshire | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Gwnaed y datganiad buddiant dilynol:-<br><u>Cynghorydd J. Hill</u><br>Eitem 4 – Adroddiad Cynllunio - C/2020/0301<br>Uned 19, Stad Ddiwydiannol Rasa, Rasa, Glynebwy<br>Codi 1 Tyrbin Gwynt a<br>Seilwaith Cysylltiedig. | |
| No. 4 | **<u>ADRODDIAD CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i’r dilynol:-<br><br>**<u>C/2020/0301</u>**<br>**<u>Uned 19, Stad Ddiwydiannol Rasa, Rasa, Glynebwy</u>**<br>**<u>Codi 1 Tyrbin Gwynt a</u>**<br>**<u>Seilwaith Cysylltiedig</u>**<br><br>Gan ddefnyddio cymhorthion gweledol, rhoddodd Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu drosolwg o’r ardal lle codid y tyrbin gwynt.<br><br>Dywedodd y Swyddog wrth Aelodau y rhoddwyd caniatâd i gais yn 2019 i godi un tyrbin gwynt yn Uned 18, fodd bynnag erbyn hyn | |

nid yw yn cael ei adeiladu gan y rhoddwyd caniatâd ar gyfer codi cyfarpar cyddwysydd cydamserol ar yr un safle ac mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Felly mae'r datblygwr yn awr yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer un tyrbin gwynt yn Uned 19, Stad Ddiwydiannol Rasa.

Mae'r safle yng nghanol Stad Ddiwydiannol Rasa. Mae cefn gwlad agored i'r gogledd/gogledd orllewin sy'n ffurfio clustog rhwng yr ardal drefol a ffiniau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae ardal breswyl Rasa tu hwnt i'r dwyrain, de-ddwyrain a de-orllewin ar bellter o tua 400m. Caiff lefel isaf y stad ei gwahanu gan yr A465 a ailgyfluniwyd yn ddiweddar a gwregys o goed. Mae Garnlydan tua 1km i ffwrdd i ddwyrain y Stad Ddiwydiannol, sydd o uchder tebyg i'r tyrbin a gynigir.

Dywedodd y Swyddog fod eisoes ddau dyrbin gwynt, un 74m o uchder tua 550 metr i ffwrdd yn y de-orllewin a'r llall yn 77m mewn uchder tua 650m i ffwrdd i'r gogledd-ddwyrain a chaiff y rhain eu dangos ar y cymhorthion gweledol a gyflwynwyd. Cadarnhaodd y Datganiad Cynllunio y cynhelid dau neu fwy o ymweliadau cynnal a chadw rheolaidd bob blwyddyn ar y tyrbin. Mae'r meintiau a gynigir yr un fath â'r rhai a gymeradwywyd yn flaenorol yn Uned 18. Mae'r cynnig yn cynnwys adeilad bach i gynnwys newidydd, offer switsio cysylltiedig ac offer gwarchod trydanol a bydd yn agos at waelod tŵr y tyrbin ac wedi'i gysylltu gyda'r man cysylltu grid drwy gebl dan-ddaear. Byddai'r tyrbin a gynigir yn cyflenwi pŵer yn uniongyrchol i safle gweithgynhyrchu cyfagos Yuassa Battery (UK) Cyf. Ychwanegodd y Swyddog na roddwyd unrhyw fanylion yng nghyswllt yr adeilad bach gyda'r cais hwn, fodd bynnag byddai angen rhoi'r gweddlun/dyluniad i'r Adran Cynllunio cyn datblygu.

Amlinellodd y Swyddog yr ymatebion i'r ymgynghoriad mewnol ac allanol fel y manylir yn yr adroddiad. Dywedwyd y cafodd y cwestiwn technegol a godwyd ei drin gan yr Asiant a bod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cyflwyno gwrthwynebiad yng nghyswllt yr effaith gronnus ar nodweddion arbennig ardal y Parc Cenedlaethol. Nodwyd hefyd y derbyniwyd un gwrthwynebiad gan aelod o'r cyhoedd yng nghyswllt sŵn.

Rhoddwyd trosolwg manwl o'r Asesiad Cynllunio a nododd y Swyddog y prif bwyntiau allweddol yng nghyswllt y dilynol:

- Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynhyrchu ynni adnewyddadwy

| | | |
|---|---|---|
| | • Polisi 18 – Ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt<br>• Polisi 17 – Ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig<br>• Egwyddor os yw'r datblygiad ar safle cyflogaeth sylfaenol<br>• Effaith ar y tirlun ac effaith gweledol<br>• Effaith gweledol lleol uniongyrchol<br>• Sŵn a dirgryniad<br>• Fflachiad cysgod<br>• Traffig a thrafnidiaeth<br>• Effaith ar ddefnyddwyr yng nghyffiniau'r tyrbin ac iechyd a diogelwch<br>• Hydroleg a hydroddaeareg<br>• Amgylchedd hanesyddol<br>• Awyrennau<br>• Telathrebu<br>• Seilwaith cysylltiedig a chysylltiad â'r grid<br>• Geotechnegol<br>• Dadgomisiynu ac adfer safle<br><br>I gloi, dywedodd y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu wrth benderfynu ar y cais hwn y cynghorir Aelodau i roi pwysau sylweddol i'r cyfraniad y gallai'r cais ei wneud tuag at ateb targedau cenedlaethol, Prydeinig ac Ewropeaidd a ddynodwyd ar gyfer ynni adnewyddadwy, yn ogystal â rhoi pwysau i bob ystyriaeth cynllunio sylweddol wrth wneud y penderfyniad terfynol. Mae'r adroddiad yn amlinellu yn fanwl sut y byddai'r materion cynllunio sylweddol yn gysylltiedig gyda'r datblygiad yn cael eu trin a sut y byddai'r effeithiau'n cael eu lliniaru. Ystyriwyd fod egwyddor y tyrbin gwynt arfaethedig gyda seilwaith cysylltiedig yn dderbyniol yn y lleoliad a gynigir ac yn cydymffurfio gyda pholisi cenedlaethol a lleol. Mae'r cais hefyd yn cyfrannu at dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu ynni gwynt ar y tir. Felly, nododd y Swyddog argymhelliad i roi caniatâd cynllunio gyda'r amodau a fanylir yn yr adroddiad. Nid oedd unrhyw sylwadau gan Aelodau Ward, felly gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau/cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at fflachiad cysgod, sŵn a dirgryniad a gofynnodd os yr ystyriwyd effaith pob un o'r tri tyrbin gwynt ar y safle. Teimlai'r Aelod gyda'r tyrbinau gwynt ychwanegol eisoes ar y safle y dylid rhoi ystyriaeth i'r effaith y byddai'r tri tyrbin gwynt yn ei gael ar yr ardal o amgylch. Gofynnodd yr Aelod am i'r effaith ar y cyd | |

| | | |
|---|---|---|
| | gael ei gynnwys mewn ceisiadau yn y dyfodol lle mae mwy nag un tyrbin gwynt ar y safle.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu fod y cyrff perthnasol wedi rhoi ystyriaeth i effeithiau sŵn, dirgryniad a fflachiad cysgod ac mae'r Swyddog yn fodlon y cafodd y datblygiad arfaethedig ei asesu ar ganllawiau presennol y llywodraeth. Derbyniwyd fod risg isel y byddai fflachiad cysgod, sŵn a dirgryniad yn effeithio ar anheddau yn y cyffiniau. Fodd bynnag, cynigiwyd amod i sicrhau y gellid gweithredu mesurau llesiant pe bai'r problemau hyn yn codi.<br><br>Cytunodd Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu i gynnwys manylion mewn adroddiadau dilynol o'r hyn a gafodd ei asesu mewn adroddiadau sŵn ar gyfer ceisiadau tyrbin gwynt yn y dyfodol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn am uchder y tyrbinau gwynt, dywedwyd y cânt eu hadeiladu i uchder i gynyddu ynni i'r eithaf. Mae'r tyrbin gwynt yn cael ei adeiladu o fewn uchder eraill ar y safle heb fod yn uwch na 80 metr.<br><br>Mewn pleidlais a gymerwyd, ymatalodd y Cynghorydd J. Hill rhag pleidleisio gan ei fod yn aelod o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a<br><br>PHENDERFYNWYD **RHOI** caniatâd cynllunio gyda phwerau dirprwyedig wedi eu hawdurdodi i'r Swyddog Cynllunio. | |
| **No. 5** | **MAES Y DDERWEN, STRYD CHARLES , TREDEGAR**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau at ohebiaeth hwyr a gafwyd yn gysylltiedig â'r cais a rhoddodd grynodeb o'r wybodaeth a dderbyniwyd ers ysgrifennu'r adroddiad. Nododd y Rheolwr Gwasanaeth yr ymateb i'r ohebiaeth a dywedodd ar ôl gweld y fideo fod gyrrwr y lori wedi cydymffurfio gyda Rheolau'r Ffordd Fawr. Nododd y Rheolwr Gwasanaeth hefyd e-bost a anfonodd Shaws at holl Aelodau'r Pwyllgor a bod copi o'r ohebiaeth gan Asbri ynghlwm â'r adroddiad.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau fod cyfarfod Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Chwefror wedi ystyried | |

adroddiad ar gyfer datblygu safle preswyl newydd yn Maes y Dderwen. Byddai'r datblygiad yn rhoi uned byw â chymorth newydd 5 ystafell wely a dywedwyd mai argymhelliad y swyddog oedd rhoi caniatâd cynllunio gydag amodau. Roedd hyn yn seiliedig ar y ffaith fod y cynnig ar gyfer defnydd preswyl mewn ardal breswyl gan bennaf, nad oedd unrhyw faterion sylweddol a godwyd gan ymgyngoreion na fedrid eu trin drwy amod cynllunio ac y byddai'r cyfleuster yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddiwallu anghenion grŵp cleientiaid neilltuol. Fodd bynnag, yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth faith, penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio wrthod caniatâd cynllunio.

Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth ymhellach am yr adroddiad ac amlinellodd y pwyntiau allweddol i gael eu hystyried wrth benderfynu'r rhesymau dros wrthod. Atgoffwyd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio fod y Cyngor wedi wynebu costau mewn cyfnodau diweddar am wrthod caniatâd cynllunio pan na fedrodd y Pwyllgor Cynllunio amddiffyn y penderfyniad a wnaed. Mae'r costau sylweddol hyn ar gyfer apeliadau wedi cynyddu ac nid oes cyllideb ar gyfer y gwariant ychwanegol.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth yr Aelodau at y rhesymau dros wrthod a'u gwahodd i'w cymeradwyo, ychwanegu/diwygio neu ddileu'r rhesymau dros wrthod fel sy'n berthnasol.

Amlinellwyd y rhesymau dros wrthod a godwyd yn y cyfarfod diwethaf yn ogystal â sylwadau'r swyddog fel sy'n dilyn:-

**Rheswm 1 dros Wrthod**
Byddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi consyrn sylweddol ar y briffordd gan y byddai'n cynhyrchu galw ychwanegol am ofodau parcio heb ddigon o gapasiti o fewn y safle a'r ardal o amgylch. Byddai hyn yn arwain at barcio ar y stryd yn gysylltiedig gyda'r datblygiad er afles i ddiogelwch priffordd.

Sylwadau'r Swyddog
Mae materion priffordd yn ystyriaeth cynllunio sylweddol. Fodd bynnag, yn yr achos hwn mae'r Awdurdod Priffordd wedi cadarnhau pe codid 3 gofod newydd cyn defnyddio'r adeilad na fyddai ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r cynllun. Mae'r datblygiad yn cydymffurfio gyda'n canllawiau parcio.

Felly nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu na fedrid darparu ar gyfer agweddau cynhyrchu ceir y cynnig o fewn y safle.

**Rheswm 2 dros Wrthod**
Nid yw'r safle yn addas ar gyfer cartref ar gyfer cleientiaid bregus gydag anghenion cymorth gan fod y safle yn agos at dŷ tafarn.

Sylwadau'r Swyddog
Gofynnwyd am dystiolaeth i esbonio pam fod y trefniant hwn o ddefnyddiau yn annerbyniol. Dylai Aelodau gofio fod rheoleiddwyr eraill yn gyfrifol am reoli'r safle.

**Rheswm 3 dros Wrthod**
Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at or-ddatblygiad o'r safle.

Sylwadau'r Swyddog
Mae'r Rheolwr Gwasanaeth yn aneglur os yw cyfeiriad at or-ddatblygiad yn cyfeirio at faint yr adeiladau, datblygiad ategol fel y maes parcio neu yn ymwneud â diffyg gofod amwynder ar gael o fewn y safle. Dylid ehangu ar y rheswm dros wrthod i esbonio consyrn y Pwyllgor Cynllunio.

**Rheswm 4 dros Wrthod**
Nid yw'r datblygiad arfaethedig er budd gorau y gymuned o amgylch y datblygiad.

Sylwadau'r Swyddog
Mae'r rheswm hwn yn amwys ac nid yw'n esbonio i'r ymgeisydd pam fod y Pwyllgor Cynllunio yn ystyried fod y datblygiad yn annerbyniol. Cyngor y Swyddog yw ymhelaethu am y rheswm i ddelio gyda pham y byddai'r gymuned dan anfantais oherwydd y cynllun. Mae'n rhaid i'r effeithiau negyddol hyn fod yn berthnasol i gynllunio ac na fedrir eu lliniaru/trin gan amodau cynllunio.

**Rheswm 5 dros Wrthod**
Bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at adeilad Dosbarth C3 drws nesaf at dafarn. Ni ddylai'r defnyddiau hyn fod drws nesaf i'w gilydd.

Sylwadau'r Swyddog
Mae'r defnydd arfaethedig yn preswyl. Mae'r ardal o amgylch yn breswyl gan bennaf. Mae'n gyffredin i ddefnyddiau domestig/preswyl fod yn ymyl safleoedd trwyddedig yng nghymunedau'r Cymoedd. Mae enghreifftiau niferus o hyn ledled y Fwrdeistref Sirol. Pe byddai hyn yn rheswm dros wrthod, byddai

angen tystiolaeth mewn apêl i ddangos pam fod y berthynas hon rhwng y defnyddiau yn annerbyniol. Fel y saif pethau, nid oes dim i gefnogi'r farn fod y defnyddiau hyn yn anghymarus.

Ar y pwynt hwn gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan y Pwyllgor Cynllunio.

Ymatebodd Aelod i'r rhesymau dros wrthod fel y cawsant eu hamlinellu gan y Rheolwr Gwasanaeth fel sy'n dilyn:-

**Rheswm 1**

Roedd yr Aelod yn anghytuno'n barchus gyda barn y swyddog priffyrdd y tro hwn ac yn sefyll wrth ei sylwadau y mis diwethaf. Mae parcio yn broblem fawr yn y stryd ac yn tarfu llawer ar breswylwyr, fel yr amlinellwyd yn eu sylwadau. Yn hanesyddol, pan adeiladwyd ffordd osgoi Tredegar, cafodd y stryd ei chau yn y gwaelod mewn ymgais i'w gwneud yn fwy o ardal breswyl. Cafodd y cau ei ddileu o fewn ychydig wythnosau oherwydd yr anrhefn llwyr. Mae pryderon mawr am barcio eisoes yn yr ardal fel y dangosir yn yr adroddiad cynllunio gwreiddiol.

**Rheswm 2**

Mae rheoleiddwyr eraill yn gyfrifol am reoli, ond mae hyn yn bendant iawn ein penderfyniad ni sy'n eu rhoi mewn sefyllfa a allai fod yn beryglus. Yn yr un modd â phob tafarn, mae gan y dafarn hon weithiau gwsmeriaid yn defnyddio'r ardal tu fas ar gyfer ysmygu neu ddefnyddiau eraill, sy'n rhoi'r preswylwyr yn agos iawn at sefyllfaoedd a allai fod yn niweidiol fel y rhai a amlinellwyd gan y preswylwyr sy'n byw yn yr ardal.

**Rheswm 3**

Bydd y cynigion yn gostwng y gofod amwynder sydd ar gael yn ystod y dydd i'r preswylwyr presennol a bydd yn effeithio ar eu llesiant.

Yn nhermau **Rheswm 4** a **Rheswm 5,** dywedodd yr Aelod ei fod wedi trin y pryderon hyn yn **Rheswm 1** a **Rheswm 2** yn yr un drefn. Atgoffodd yr Aelod y Swyddog y caniatawyd gwrthod yn y gorffennol gyda llai na pum rheswm.

Mewn ymateb i'r rhesymau dros wrthod, teimlai Aelod os yw'r problemau hyn yn cael eu profi y byddent wedi eu trin gan fod y datblygiad hwn yn ychwanegiad i'r safle presennol yn yr ardal.

| | | |
|---|---|---|
| | Ailadroddodd Aelod ei bryderon a godwyd yng nghyfarfod cynllunio mis Chwefror a dywedodd nad oedd ei safbwynt wedi newid a'i fod yn dal i ddymuno i'r cais gael ei wrthod.<br><br>Cyfeiriodd Aelod Ward at y sylwadau a wnaed yng nghyswllt y cyfleuster presennol a materion cysylltiedig a dywedodd fod y sylwadau'n rhoi'r dybiaeth y cafodd y safle gwreiddiol ei basio'n ddiweddar. Felly, nid felly y mae hi a bu'r safle yn yr ardal am tua 30 mlynedd ac mae llawer o bethau wedi newid yn y cyfnod hwn yn cynnwys mwy o draffig ar ein ffyrdd. Nid yw'r cais am anecs i'r adeilad presennol gan ei fod yn adeilad ychwanegol ar y safle a fyddai 1m i ffwrdd o'r dafarn, tra bod yr adeilad presennol 38m i ffwrdd o'r dafarn. Teimlai'r Aelod y dylai'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod diwethaf ddal i sefyll er budd y gymuned ac roedd yn amhriodol fod y drafodaeth am y cais yn cael parhau.<br><br>Dywedodd yr Is-gadeirydd iddo ymweld â'r ardal a sylwi fod safleoedd masnachol eraill yn y gymdogaeth a theimlai felly na fedrid beio Maes y Dderwen yn unig am y problemau priffordd. Roedd yr Is-gadeirydd o'r farn fod y rheswm dros wrthod ar sail priffyrdd yn ddadl wan.<br><br>Nodwyd mai'r effaith y byddai'r adeilad ychwanegol yn ei gael ar breswylwyr lleol oedd yn achosi problemau i'r Aelodau lleol, nid y safle presennol.<br><br>Cododd yr Aelod bryderon am ganiatáu mwy o drafodaeth ar y cais hwn pan bleidleiswyd eisoes yn y cyfarfod diwethaf dros wrthod. Dywedodd yr Aelod y dylai'r adroddiad a gyflwynwyd gael ei ystyried gan Aelodau, ni chafodd yr adroddiad ei gyflwyno i ystyried gwrthdroi'r penderfyniad cynllunio a wnaed eisoes. Cyflwynwyd y rhesymau a theimlai'r Aelod eu bod yn ddigonol a chynigiodd y dylid symud ymlaen â nhw. Roedd hefyd bryderon wedi eu codi ar ohebiaeth ychwanegol a adroddwyd i Aelodau gan breswylwyr a theimlai'r Aelod na ddylai'r rhain fod wedi eu cynnwys yn yr adroddiad neu yn wir eu hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio gan y cafodd y penderfyniad ei wneud yn y ffordd iawn a chywir.<br><br>Codwyd pryderon hefyd ar y disgwyliad y byddai'r cais hwn yn mynd i apêl a theimlid nad oedd hyn yn dybiaeth i'r Pwyllgor Cynllunio ei gwneud.<br><br>Roedd yr Aelod yn parchu hawl y swyddogion i godi costau apêl, | |

ond cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol fyddai'r costau hyn a byddid yn cael eu trin fel rhan o'r broses o osod y gyllideb nesaf. Dywedodd yr Aelod y cafodd penderfyniad ei wneud yn ddemocrataidd ac felly na ddylai'r costau hyn gael eu codi na'r penderfyniad ei wrthdroi oherwydd costau disgwyliedig. Roedd y Pwyllgor Cynllunio wedi gwrthod llawer o geisiadau yn erbyn argymhelliad swyddogion ac ni chawsant eu cyflwyno yn y ffordd hon. Ni chafodd apêl ei chyflwyno eto a dywedodd yr Aelod y byddai'n hapus i amddiffyn yr apêl os a phryd mae angen. Cytunodd yr Aelod fod y trafodaethau hyn yn amhriodol gan y cafodd y penderfyniad ei wneud ac y cymerwyd pleidlais.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau na chafodd hysbysiad penderfynu ei gyhoeddi eto gan nad oedd y rhesymau dros wrthod yn glir. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth nad oedd yr adroddiad yn gwahodd Aelodau i edrych eto ar y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod diwethaf ond yn gofyn am eglurhad am y rhesymau dros wrthod.

Ategodd Aelod arall ei bryderon a theimlai fod swyddog profiadol wedi rhoi ei farn broffesiynol. Teimlai'r Aelod fod Aelodau yn gofyn i swyddogion gyflwyno gwrthodiad ar eu hargymhellion ar gyfer cymeradwyaeth ac ychwanegodd yr Aelod y byddai'r cyfrifoldeb am y penderfyniad yn syrthio ar yr Awdurdod Lleol a Swyddogion. Mae hyn yn annerbyniol a theimlai'r Aelod nad yw Aelodau yn gweithredu mewn modd cyfrifol.

Dywedodd Aelod Ward lleol y byddai angen penderfynu am y rhesymau dros wrthod er mwyn amddiffyn apêl. Ychwanegodd yr Aelod Ward y cafodd y penderfyniad i wrthod y cais ei wneud er budd y gymuned a phreswylwyr y safle. Tanlinellodd yr Aelod Ward nad oedd yma i gymryd penderfyniad arall a chynigiodd y dylid cymeradwyo'r rhesymau a gyflwynwyd. Os cyflwynir apêl, dywedodd yr Aelod y gellid amddiffyn y penderfyniad.

Pe collid yr apêl, ychwanegodd yr Aelod na fyddai hyn yn ddim gwahanol i apeliadau eraill a wnaed yn y gorffennol. Bu llawer o achosion lle nad oedd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi cytuno gydag argymhelliad swyddog a theimlai'r Aelod pe byddai'r Pwyllgor Cynllunio i gymeradwyo pob cais yn unol ag argymhelliad y swyddog, yna waeth i ni diddymu'r Pwyllgor Cynllunio a chaniatáu i swyddogion wneud yr holl benderfyniadau.

Cytunodd Aelod arall gyda'r sylwadau a wnaed a holi beth oedd

pwynt y Pwyllgor Cynllunio os yw'n cymryd holl argymhellion swyddogion. Roedd yn bwysig fod barn ddemocrataidd ac mai dyna beth yw rôl y Pwyllgor a chynrychiolwyr etholedig.

Gwerthfawrogai'r Is-gadeirydd fod nifer o Aelodau yn Aelodau profiadol o'r Pwyllgor Cynllunio, fodd bynnag dymunai sôn i achos fynd i apêl wyth wythnos yn ôl ac y cafodd y Pwyllgor Cynllunio ei gyhuddo gan yr Arolygiaeth Cynllunio o weithredu'n anghyfrifol. Dywedodd yr Is-gadeirydd nad ydym yn arbenigwyr fel Aelodau ond yn cymryd cyngor gan swyddogion a theimlai felly na fedrai amddiffyn y penderfyniad neilltuol hwn i wrthod y cais.

Dywedodd Aelod na chafodd yr adroddiad ei gyflwyno i wrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol at atgoffodd yr Aelodau y gofynnwyd i'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a swyddog yn y cyfarfod diwethaf am arweiniad cryfach yng nghyswllt y rhesymau dros wrthod, rhesymau gyda chyfiawnhad dros wrthod. Efallai y bydd yr Arolygiaeth Cynllunio yn teimlo nad yw'r rhain yn rhesymau cryf dros wrthod, fel a wnaeth yn yr achos blaenorol, fodd bynnag teimlai'r Aelodau lleol y gallent eistedd o flaen yr Arolygiaeth Cynllunio ac amddiffyn y rheswm dros wrthod, pe gwnaed cais.

Mewn ymateb i'r rheswm am yr adroddiad a gyflwynir, dywedodd y Cyfreithiwr fod yr argymhellion yn glir a bod y swyddog wedi gofyn i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried a chymeradwyo'r rhesymau dros wrthod y cais a gafodd ei wrthod yn y cyfarfod diwethaf.

Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau i bryderon a godwyd ynghylch diben yr adroddiad. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth ei fod yn brotocol cynllunio a fabwysiadwyd gan Aelodau oedd yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion gyflwyno adroddiad o'r fath a hefyd nododd y Rheolwr Gwasanaeth fod y penderfyniad a gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf yn cyfarwyddo cyflwyno'r adroddiad gan na roddwyd unrhyw resymau clir yn y Pwyllgor. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y gellid edrych eto ar y penderfyniad gan na chafodd yr hysbysiad penderfyniad ei gyhoeddi gan na chytunwyd am resymau dros wrthod. Ychwanegwyd hefyd fod y Rheolwr Gwasanaeth o'r farn na fyddai'r rhesymau a amlinellwyd yn ddigon cryf i atal apêl. Yng nghyswllt priffyrdd, teimlai'r Rheolwr Gwasanaeth fod tystiolaeth gadarn gan yr Arolygydd Priffyrdd nad oedd wedi gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

Gofynnodd y Rheolwr Gwasanaeth unwaith eto i Aelodau egluro y

| | | |
|---|---|---|
| | pum rheswm ac amlinellodd yr Aelod fel sy'n dilyn:<br><br>1. Rwy'n anghytuno'n barchus gyda barn y swyddog priffyrdd ac yn sefyll wrth fy sylwadau y mis diwethaf. Mae parcio yn broblem fawr yn y stryd ac yn tarfu llawer ar breswylwyr, fel yr amlinellwyd yn y sylwadau. Yn hanesyddol, pan gafodd ffordd osgoi Tredegar ei hadeiladu, cafodd y stryd ei chau ar y gwaelod mewn ymgais i'w gwneud yn fwy o ardal breswyl. Cafodd y cau ei ddileu o fewn wythnosau oherwydd yr anrhefn llwyr a achoswyd fel canlyniad. Mae pryderon mawr am barcio yn yr ardal eisoes fel y dangosir yn yr adroddiad cynllunio gwreiddiol.<br><br>Cynigiodd yr Aelod y dylid cyflwyno'r uchod fel rheswm 1.<br><br>2. Mae rheoleiddwyr eraill yn gyfrifol am y rheoli, ond mae hyn yn bendant iawn yn benderfyniad i ni sydd yn eu rhoi mewn sefyllfa a allai fod yn beryglus. Fel gyda phob tafarn, mae gan y dafarn hon weithiau gwsmeriaid yn defnyddio'r ardal tu fas ar gyfer ysmygu neu ddefnyddiau eraill, sy'n rhoi'r preswylwyr yn agos at sefyllfaoedd a allai fod yn niweidiol iddynt fel y rhai a amlinellwyd gan y preswylwyr sy'n byw yn yr ardal.<br><br>Cynigiodd yr Aelod y dylid cyflwyno'r uchod fel rheswm 2.<br><br>3. Bydd y cynigion yn gostwng y gofod amwynder y mae preswylwyr yn ei fwynhau yn ystod y dydd ar hyn o bryd ac yn effeithio ar eu llesiant.<br><br>Yn nhermau rhesymau 4 a 5, ategodd yr Aelod y cafodd y rhain eu cynnwys yn rhesymau 1 a 2 yn eu tro. Gofynnodd y Rheolwr Gwasanaeth am eglurdeb am resymau 4 a 5 a gofynnodd yr Aelod os gellid cynnig gwrthod am dri rheswm.<br><br>Ar y pwynt hwn gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio am gyfeiriad gan y Cadeirydd.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y pleidleisiwyd ar y penderfyniad a'i wrthod yn y cyfarfod diwethaf a'i fod felly yn sefyll. Mae'r adroddiad a gyflwynir er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried y rhesymau dros wrthod. Teimlai'r Cadeirydd fod yr Aelodau wedi ystyried y cais a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf ynghyd â'r adroddiad a gyflwynir heddiw a bod mwyafrif yr Aelodau yn dal i ddymuno i'r cais gael ei wrthod. | |

Gwerthfawrogai'r Rheolwr Gwasanaeth y trafodaethau cyfredol, fodd bynnag roedd y Swyddog yn ansicr os oedd rheswm 4 neu 5 gan mai dim ond 3 rheswm yr oedd Aelodau wedi eu rhoi.

Cododd Aelod Ward bryderon am y ffordd yr arweiniodd yr adroddiad at ymddygiad cwerylgar gan Aelodau dros y cais. Nid oedd yr Aelod Ward erioed wedi gweld dadlau o'r o'r blaen yng nghyswllt rhesymau dros wrthod cais cynllunio. Ni allai'r Aelod Ward gofio am adroddiad o'r math hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a dymunai iddo gael ei gofnodi y teimlai ei fod yn hollol allan o drefn.

Anghytunodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau gyda'r sylwadau a wnaed a dywedodd y cyflwynwyd rhesymau yn flaenorol i benderfynu am resymau dros wrthod os na chawsant eu rhoi.

Teimlai Aelod Ward fod y rhesymau a roddwyd yn ddigonol a dywedodd yr awgrymwyd ar ôl y cyfarfod diwethaf awgrymwyd fod y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau ynghyd â'r Aelodau lleol yn cwrdd i gadarnhau'r rhesymau. Fodd bynnag, gan na wnaed cysylltiad, roedd yr Aelod Ward wedi tybio fod y mater wedi ei drin. Ni fu unrhyw bwynt mewn gwahodd yr holl Bwyllgor gan mai dim ond
detholiad o Aelodau bleidleisiodd i wrthod y cais.

Mewn ymateb i'r awgrym fod detholiad bach o Aelodau yn cyfarfod i wneud penderfyniad, cadarnhaodd y Cyfreithiwr na fyddai hyn yn dderbyniol. Nodwyd fod yr Is-gadeirydd wedi awgrymu'r cyfarfod er mwyn penderfynu'r rhesymau dros wrthod na chafodd eu rhoi yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cynllunio.  Cofiai'r Is-gadeirydd ei fod wedi gofyn os byddai'n bosibl cael cyfarfod o'r fath.

Dilynodd trafodaeth faith am y rhesymau a'r nifer o resymau oedd eu hangen a theimlai'r Aelodau fod tri reswm yn ddigonol. Dywedodd yr Aelod Ward y bu'r holl faterion yn y Pwyllgor ddiwethaf am effaith gymunedol cynyddu traffig ar y priffyrdd a'r parcio yn y cyffiniau, bod y safle yn agos at dafarn, colli gofod gardd ar gyfer preswylwyr y safle a gorddatblygu y safle. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth mai dyma a gafodd ei amlinellu yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth at y rhesymau a godwyd gan yr

Aelod lleol a'r rhai a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gofynnodd i'r Pwyllgor Cynllunio egluro'r rhesymau dros wrthod.

Yn dilyn trafodaethau pellach, cynigiwyd symud ymlaen gyda rhesymau 1-3 a amlinellwyd gan yr Aelod lleol yn ogystal â rheswm 4 a 5 a amlinellwyd yn adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.

**Rheswm 1**
Anghytunwyd gyda barn y swyddog priffyrdd ar yr achlysur hwn ac yn sefyll gyda'r sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Mawrth. Teimlwyd fod parcio yn broblem fawr yn Stryd Charles ac yn tarfu llawer ar breswylwyr – cafodd y pryderon hyn eu codi mewn gohebiaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio. Yn hanesyddol, pan gafodd ffordd osgoi Tredegar ei hadeiladu gyntaf, cafodd Stryd Charles ei chau ar y gwaelod mewn ymgais i'w gwneud yn fwy o ardal breswyl. Cafodd y cau ei ddileu o fewn wythnosau oherwydd yr anrhefn llwyr a achoswyd fel canlyniad. Mae pryderon mawr am barcio yn yr ardal eisoes fel y dangosir yn yr adroddiad cynllunio gwreiddiol.

**Rheswm 2**
Mae rheoleiddwyr eraill yn gyfrifol am y rheoli, ond mae hyn yn bendant iawn yn benderfyniad i ni sydd yn eu rhoi mewn sefyllfa a allai fod yn beryglus. Fel gyda phob tafarn, mae gan y dafarn hon weithiau gwsmeriaid yn defnyddio'r ardal tu fas ar gyfer ysmygu neu ddefnyddiau eraill, sy'n rhoi'r preswylwyr yn agos at sefyllfaoedd a allai fod yn niweidiol iddynt fel y rhai a amlinellwyd gan y preswylwyr sy'n byw yn yr ardal.

**Rheswm 3**
Bydd y cynnig yn gostwng y gofod amwynder y mae preswylwyr yn ei fwynhau yn ystod y dydd ar hyn o bryd ac yn effeithio ar eu llesiant.

**Rheswm 4**
Nid yw'r datblygiad arfaethedig ar budd gorau o gymuned o amgylch y datblygiad.

**Rheswm 5**
Bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at adeilad Dosbarth C3 y drws nesaf i dafarn. Ni ddylai'r defnyddiau hyn gael eu lleoli drws nesaf i'w gilydd.

PENDERFYNWYD yn unol â hynny.

Dymunai'r Cynghorydd C. Meredith iddi gael ei gofnodi nad oedd yn cefnogi gwrthod y cais yn y cyfarfod diwethaf nac yn derbyn y rhesymau dros wrthod.

PENDERFYNWYD YMHELLACH i dderbyn yr adroddiad a rhoddodd Aelodau ystyriaeth ofalus i bob rheswm am wrthod a chytunwyd ar y rhesymau dilynol dros wrthod caniatâd cynllunio yn ffurfiol:

1. Anghytunwyd gyda barn y swyddog priffyrdd ar yr achlysur hwn gan sefyll tu cefn i'r sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Mawrth. Teimlwyd fod parcio yn broblem fawr yn Stryd Charles ac yn tarfu llawer ar breswylwyr – cafodd y pryderon hyn eu codi mewn gohebiaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio. Yn hanesyddol, pan gafodd ffordd osgoi Tredegar ei hadeiladu gyntaf, cafodd Stryd Charles ei chau ar y gwaelod mewn ymgais i'w gwneud yn fwy o ardal breswyl. Cafodd y cau ei ddileu o fewn wythnosau oherwydd yr anrhefn llwyr a achoswyd fel canlyniad. Mae pryderon mawr am barcio yn yr ardal eisoes fel y dangosir yn yr adroddiad cynllunio gwreiddiol.

2. Mae rheoleiddwyr eraill yn gyfrifol am y rheoli, ond mae hyn yn bendant iawn yn benderfyniad i ni sydd yn eu rhoi mewn sefyllfa a allai fod yn beryglus. Fel gyda phob tafarn, mae gan y dafarn hon weithiau gwsmeriaid yn defnyddio'r ardal tu fas ar gyfer ysmygu neu ddefnyddiau eraill, sy'n rhoi'r preswylwyr yn agos at sefyllfaoedd a allai fod yn niweidiol iddynt fel y rhai a amlinellwyd gan y preswylwyr sy'n byw yn yr ardal.

3. Bydd y cynnig yn gostwng y gofod amwynder y mae preswylwyr yn ei fwynhau yn ystod y dydd ar hyn o bryd ac yn effeithio ar eu llesiant.

4. Nid yw'r datblygiad arfaethedig ar budd gorau o gymuned o amgylch y datblygiad.

5. Bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at adeilad Dosbarth C3 y drws nesaf i dafarn. Ni ddylai'r defnyddiau hyn gael eu lleoli drws nesaf i'w gilydd.

| | | |
|---|---|---|
| | • Dan delerau y protocol a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Cynllunio Blaenau Gwent, pe byddai apêl, ni fyddai swyddogion yn medru amddiffyn y penderfyniad. Gelwid ar Aelodau i gyflwyno'r achos, yn cynnwys os oes angen bod yn destun croesholi mewn ymchwiliad cyhoeddus.<br><br>• Nododd Aelodau pe byddai apêl, y byddai'r potensial am ddyfarnu costau yn uchel os na fyddid yn dod â thystiolaeth sylweddol dros gefnogi'r rhesymau am wrthod caniatâd cynllunio. | |
| **No. 6** | **APELIADAU, YMGYNGHORIADAU A DIWEDDARIAD DNS EBRILL 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 7** | **DIWEDDARIAD APÊL CYNLLUNIO: 51 TYNEWYDD NANTYBWCH TREDEGAR CYF: C/2020/0202**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Cynllunio.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi penderfyniad yr apêl ar gyfer cais cynllunio C/2020/0202 fel y'i amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad. | |
| **No. 8** | **RHESTR CEISIADAU A BENDERFYNWYD DAN BWERAU DIRPRWYEDIG RHWNG 19 CHWEFROR 2021 A 19 MAWRTH 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 9** | **ACHOSION GORFODAETH A GAFODD EU CAU RHWNG 24 CHWEFROR 2021 I 26 MAWRTH 2021** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at unigolyn penodol a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |